

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI**

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACTAU

Enw/Cyfeiriad y Darparwr: The Partnership of Care (gwasanaeth byw â chymorth) 27A Commercial Street, Ystrad Mynach, Caerffili, CF82 7DW

Dyddiad yr Ymweliad: Dydd Llun 25 Mawrth 2019

Swyddog(ion) Ymweld: Amelia Tyler, Swyddog Monitro Contractau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Yn Bresennol: Janine Darling, Unigolyn Cyfrifol, The Partnership of Care

1. Cefndir

1.1 Mae The Partnership of Care wedi bod yn darparu gwasanaethau byw â chymorth i breswylwyr Bwrdeistref Caerffili ers 2006. Mae'r sefydliad yn cynnig tenantiaethau mewn 10 eiddo gwahanol ledled y fwrdeistref, sy'n darparu llety i unigolion ag anableddau dysgu a/neu anawsterau iechyd meddwl.

1.2 Cwblhawyd yr adnodd monitro byw â chymorth yn ystod ymweliad a drefnwyd ymlaen llaw â'r swyddfa, yn dilyn ymweliadau ar wahân â thri o'r eiddo. Mae'r adroddiadau i gyd wedi cael eu cwblhau'n unigol.

1.3 Tynnwyd sylw at y ffaith y cynhaliwyd yr ymweliad diwethaf â'r brif swyddfa ar 12 Medi 2017, pan nodwyd tri cham unioni a thri cham datblygiadol. Cafodd yr holl argymhellion eu hadolygu ac amlinellir y canfyddiadau isod.

2. Argymhellion blaenorol

2.1 Dylai cynlluniau personol gael eu llunio gyda chyfranogiad y tenant (lle bynnag y bo modd) neu ei gynrychiolydd. Tynnwyd sylw at hyn yn wreiddiol ar 29.04.16.

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Yn ystod yr ymweliadau nid oedd yn bosibl dangos ym mhob ffeil fod yr unigolyn sy'n cael cymorth wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio ei gynllun personol. Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau RISCA (Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) newydd, mae'n rhaid i reolwyr y gwasanaeth sicrhau bod pob cynllun personol yn dangos cyfranogiad yr unigolyn a/neu'r cynrychiolydd yn glir.

2.2 Dylai cynlluniau gwasanaeth gael eu llofnodi gan y tenant neu ei gynrychiolydd. Os na all y tenant lofnodi, dylid cofnodi'r rheswm dros hyn yn glir. Tynnwyd sylw at hyn yn wreiddiol ar 29.04.16.

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Dylai rheolwyr y gwasanaeth fod yn rhagweithiol o ran sicrhau llofnodion y tenantiaid neu eu cynrychiolydd priodol a sicrhau bod y rhain yn

bresennol yn yr eiddo a'r brif swyddfa. Os na ellir gwneud hyn, dylid nodi rheswm clir yn ogystal â'r hyn a wnaed i geisio sicrhau llofnodion.

2.3 Dylai pob ffeil staff gynnwys ffotograffau priodol ac amserol o'r aelod o'r staff.

Wedi'i gyflawni. Nid edrychwyd ar ffeiliau staff yn ystod yr ymweliad â'r swyddfa ond cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn yr ymweliad fod ffotograffau yn y ffeiliau a bod gan bob cyflogai fathodyn adnabod hefyd.

3. Unigolyn cyfrifol

3.1 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau nad oedd unrhyw adroddiadau chwarterol wedi'u cwblhau ar gyfer yr eiddo byw â chymorth ond dywedwyd y byddai'r rhain yn cael eu hanfon ymlaen at y tîm comisiynu unwaith y byddent wedi'u cwblhau. Eglurwyd bod y gwasanaeth wrthi'n cwblhau'r broses gofrestru ag AGC o hyd.

3.2 Darparwyd copi o'r datganiad o ddiben ond soniodd yr unigolyn cyfrifol fod angen ei ddiweddarau er mwyn cyfuno'r gwasanaethau byw â chymorth a gofal cartref. Pan fydd y gwasanaeth wedi'i gofrestru, pwysleisiwyd y dylid dyddio'r ddogfen yn glir a nodi enw a theitl yr awdur.

3.3 Nodwyd mai'r unigolyn cyfrifol yw rheolwr cofrestredig y gwasanaeth byw â chymorth hefyd. Mae'r strwythur staffio yn cynnwys un unigolyn cyfrifol, dau reolwr gwasanaeth a thri dirprwy reolwr; dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau pe bai'r rheolwr cofrestredig yn absennol yn annisgwyl am gyfnod sylweddol o amser, y byddai'r dyletswyddau'n cael eu cwblhau gan weddill y tîm rheoli.

3.4 Gwelwyd ffeil a oedd yn cynnwys yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn y swyddfa a chydabuwyd bod y rhan fwyaf o'r dogfennau angenrheidiol yn bresennol ac eithrio dogfennau derbyn a dechrau yn y gwasanaeth. Yn ôl y ddeddfwriaeth RISCA newydd, mae'n ofynnol bod polisi ar waith mewn perthynas â dechrau pecyn gofal newydd gyda pherson newydd. Nodwyd bod angen adolygu rhai o'r bolisiau.

4. Gwybodaeth am denantiaid

4.1 Eglurwyd mai The Partnership of Care yw'r landlord a'r darparwr cymorth yn y ddau eiddo. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith pe bai cleient yn penderfynu ei fod am aros yn yr eiddo ond cael cymorth gan asiantaeth arall, y byddai'n cael ei gefnogi i gysylltu â gweithiwr cymdeithasol er mwyn dod o hyd i ddarparwr amgen.

4.2 Dywedodd yr unigolyn cyfrifol fod cynlluniau i brynu eiddo arall yn yr ardal leol gyda'r bwriad o'i droi'n bedair uned hunangynhwysol ar gyfer oedolion iau ag anghenion cymorth.

4.3 Caiff tenantiaid eu hatgyfeirio at y gwasanaeth naill ai drwy waith monitro contractau neu asesu a rheoli gofal gan y bwrdd iechyd neu waith asesu a rheoli gofal gan yr awdurdod lleol. Trafodwyd y broses o ddethol tenantiaeth ac eglurwyd bod y broses fel arfer yn digwydd dros gyfnod o amser (yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn), a'i bod yn cynnwys ymweliadau â'r eiddo, cwrdd ag aelodau o'r staff a thenantiaid eraill a chynnwys aelodau o'r teulu os yw'n briodol. Mae yna gyfnodau prawf a chyfnod prawf o dri mis er mwyn galluogi'r unigolyn i ymgartrefu.

5. Cwestiynau i'r rheolwr

5.1 Caiff archwiliadau meddyginiaeth eu cwblhau bob mis yn ogystal â'r gwiriadau diwedd yr wythnos a gynhelir gan yr arweinwyr tîm. Nid oedd unrhyw feddyginiaeth gudd yn cael ei rhoi yn unrhyw un o'r tri eiddo yr ymwelwyd â nhw ar adeg yr ymweliad.

5.2 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contractau fod yr holl feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a bod angen i ddau aelod o'r staff lofnodi gwiriadau.

5.3 Gofynnir am adborth bob tri mis gan y cleientiaid a'u cynrychiolydd (lle y bo'n briodol). Bydd yr arweinwyr tîm yn cwblhau ffurflen sicrhau ansawdd gyda'r unigolyn ac yn trafod unrhyw bryderon neu feysydd i'w gwella. Ni fu gwneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r adborth hwn na chymryd unrhyw gamau gweithredu. Caiff canlyniad y broses sicrhau ansawdd ei rannu â'r tenantiaid a'u teuluoedd mewn adroddiad hawdd ei ddarllen. Gofynnodd y swyddog monitro contractau am i gopi o'r adroddiad hwn gael ei anfon drwy e-bost unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

5.4 Eglurwyd bod y tenantiaid presennol yn rhan o'r broses ddethol wrth recriwtio staff cymorth newydd, os ydynt yn dymuno ac yn gallu gwneud hynny. Pwysleisiwyd y byddai o fudd cofnodi tystiolaeth o'r adborth a gafwyd gan y tenantiaid â nhw yn ffeil y cyflogai.

6. Cwynion a chanmoliaeth

6.1 Caiff tenantiaid eu cefnogi i wneud cwynion fel yr amlinellir yn y polisi hawdd ei ddarllen sydd ar gael i bob cyflogai a phobl a gefnogir gan yr asiantaeth. Nodwyd pe bai'r staff yn sylwi ar unrhyw newidiadau mewn ymddygiad neu ystumiau unigolion nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar y byddent yn ceisio trafod hyn ac ymchwilio ychydig er mwyn canfod a oedd unrhyw beth o'i le ac a oeddent am wneud cwyn.

6.2 Tynnodd yr unigolyn cyfrifol sylw at y ffaith pan fydd cwyn yn cyrraedd, y gall yr achwynydd ddewis y ffordd y mae'n dymuno cael adborth ar y canlyniad. Nodwyd bod y rhan fwyaf o bobl yn hoffi cwrdd wyneb yn wyneb ond gellir gwneud hyn drwy e-bost neu lythyr hefyd.

6.3 Byddai'r aelodau o'r staff yn cael gwybod am unrhyw gwynion yn ystod cyfarfodydd tîm oni bai bod y mater yn ymwneud â chyflogai penodol, os felly ymdrinnid â'r gwyn drwy'r broses goruchwylio a disgyblu. Nid oedd unrhyw arferion yr oedd angen eu newid o ganlyniad i bryderon a godwyd ond soniwyd bod ochr gofal cartref yr asiantaeth wedi cynnal hyfforddiant ar wneud gwelyau oherwydd bod hyn yn rhywbeth a godwyd gan gleient.

6.4 Ni nodwyd unrhyw ganmoliaeth yn ystod y cyfarfod ond soniodd Janine fod slipiau cyfarch wedi cael eu cyflwyno. Bydd y rhain yn gymorth wrth gwblhau adroddiadau wythnosol a'r gobaith yw y bydd hyn yn annog y staff i fod yn fwy rhagweithiol wrth gofnodi adborth cadarnhaol. Gofynnwyd i'r unigolyn cyfrifol rannu unrhyw ganmoliaeth â'r tîm comisiynu fel y gellir ei chofnodi a'i rhannu yn y cyfarfod sicrhau ansawdd bob deufis yn y cyngor, y mae uwch-reolwyr yn ei fynychu.

Materion staffio

6.1 Nid oedd yn bosibl gwybod faint o staff ar ochr byw â chymorth yr asiantaeth a oedd wedi gadael ac wedi cael eu recriwtio yn ystod y 12 mis blaenorol. Er mwyn cynnal gwybodaeth glir a chywir, dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd.

6.2 Nododd yr unigolyn cyfrifol nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth ond ei fod yn defnyddio ei gronfa ei hun o ofalwyr i gyflenwi unrhyw absenoldebau annisgwyl.

6.3 Mae system ar alw ar waith lle mae uwch-aelodau o'r staff ar gael 24 awr i roi cyngor a chymorth mewn argyfwng.

6.4 Darparwyd copïau o'r matrices hyfforddiant a nodwyd bod bylchau wedi'u nodi lle roedd angen enwebu'r aelodau o'r staff fel blaenoriaeth. Roedd ychydig o'r hyfforddiant yn hen hefyd ac mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod hyfforddiant gloywi yn cael ei gwblhau i gwmpasu cyrsiau gorfodol megis rheoli heintiau, codi a chario, ymwybyddiaeth o feddyginiaethau, ac ati.

7. Hyfforddiant

7.1 Anfonwyd copi o'r matrices hyfforddiant at y swyddog monitro contractau yn dilyn yr ymweliad, a nodwyd bod bylchau.

7.2 Nid oedd rhai cyrsiau wedi'u labelu'n glir, h.y. 'data', 'dwys' a 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth': Er mwyn lleihau unrhyw ddryswch posibl, argymhellir y dylai'r rhain gael eu cofnodi'n glir.

7.3 Hyfforddiant ystafell ddosbarth yw'r hyfforddiant a ddarperir, sy'n galluogi trafodaeth grŵp ac yn galluogi pobl i dynnu sylw at senarios bywyd go iawn. Caiff y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ei gynnal gan gwmni allanol ac eglurwyd bod y rheolwyr hefyd yn mynychu'r cyrsiau hyn. Yn dilyn adborth gan ochr gofal cartref y cwmni, mae hyfforddiant bellach yn cael ei roi ar wneud gwelyau ar gyfer pobl nad oes ganddynt gynfas elastigedig gosod.

7.4 Er nad yw'r 'cynnig rhagweithiol' yn cael ei weithredu'n llawn ar hyn o bryd, cydnabuwyd bod ochr gofal cartref yr asiantaeth wedi ysgrifennu at gleientiaid i ofyn a hoffent gyfathrebu yn Gymraeg. Er mwyn dangos bod yr asiantaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cynulliad Cymru, argymhellir y dylai'r arolygon hyn gael eu cwblhau gyda'r holl denantiaid a/neu eu teulu, eu llofnodi a'u dyddio, a'u cadw mewn ffeil.

9. Camau unioni a datblygiadol

9.1 Camau unioni (y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r holl gamau unioni yw 23 Awst 2019)

9.1.1 Dylai cynlluniau personol gael eu llunio gyda chyfranogiad y tenant (lle bynnag y bo modd) neu ei gynrychiolydd. Tynnwyd sylw at hyn yn wreiddiol ar 29.04.16 (Rheoliad 35 RISCA)

9.1.2 Dylai cynlluniau gwasanaeth gael eu llofnodi gan y tenant neu ei gynrychiolydd. Os na all y tenant lofnodi, dylid cofnodi'r rheswm dros hyn yn glir (Rheoliad 35 RISCA)

9.1.3 Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith mewn perthynas â dechrau gwasanaeth (Rheoliad 14 RISCA)

9.1.4 Dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau gael eu hadolygu'n flynyddol a dylid dangos hyn yn glir (Rheoliad 14 RISCA)

9.1.5 Dylid anfon copi o'r adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol i'r tîm comisiynu drwy e-bost (Rheoliad 80 RISCA)

9.1.6 Dylai hyfforddiant gorfodol pob cyflogai fod yn gyfredol, a dylid diweddarau'r matrices yn briodol (Rheoliadau 35 a 36 RISCA)

9.1.7 Dylid rhoi ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y broses recriwtio (Rheoliad 35 RISCA)

9.2 Camau datblygiadol

9.2.1 Dylai'r matrices hyfforddiant labelu'r cyrsiau a gwblhawyd yn glir yn hytrach na defnyddio talfyriadau.

9.2.2 Er mwyn dangos tystiolaeth o'r 'cynnig rhagweithiol', dylai pob tenant a/neu ei gynrychiolydd gael copi o'r arolwg yn gofyn ym mha iaith yr hoffent sgwrsio, a dylid cadw hyn mewn ffeil.

9.2.3 Dylai gwybodaeth am lefelau staffio a niferoedd staff newydd a staff sy'n gadael fod ar gael ar gais.

10. Casgliad

10.1 Er y nodwyd mwy o gamau gweithredu yn ystod yr ymweliad monitro hwn na'r ymweliad blaenorol, cydnabuwyd bod rhai o'r rhain yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd a gyflwynwyd.

10.2 Fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad, nid yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru'n llawn ag AGC eto, a gofynnir i'r unigolyn cyfrifol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm comisiynu mewn perthynas â hyn.

10.3 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r unigolyn cyfrifol am ei hamser a'i chroeso yn ystod y cyfarfod.

Awdur: Amelia Tyler

Dynodiad: Swyddog Monitro Contractau

Dyddiad: 22 Mai 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd ar gais.